**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 20fed Mehefin, 2017 at 10.00 am**

**PRESENT:** County Councillor S. Howarth (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: L.Brown, L.Dymock, R. Edwards, M.Groucutt, R. Harris and P.Pavia

Also in attendance County Councillor(s):

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Mark Howcroft | Assistant Head of Finance |
| Claire Marchant | Chief Officer Social Care, Health & Housing |
| Wendy Barnard | Democratic Services Officer |
| Shirley Wiggam | Senior Strategy & Policy Officer |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Tyrone Stokes | Accountant |

**APOLOGIES:**

Councillors J.Pratt

1. **I nodi penodiad y Cadeirydd**

Cafodd y Cynghorydd Sir S. Howarth ei nodi fel Cadeirydd.

2. **I benodi Is-gadeirydd**

Gohiriwyd apwyntiad yr Is-gadeirydd tan y cyfarfod nesaf.

3. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni chafodd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb ei wneud.

4. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelod o’r cyhoedd yn bresennol.

5. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

6. **Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 4ydd Ebrill 2017**

Cafodd cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar y 4ydd o Ebrill 2017 eu cadarnhau a'u harwyddo gan y Cadeirydd.

7. **Pwyllgor Dethol Oedolion a gynhaliwyd ar 11eg Ebrill 2017**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg o Ebrill 2017 eu cadarnhau a'u harwyddo gan y Cadeirydd.

8. **Rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 20fed Mehefin, 2017 at 10.00 am**

**Cyd-destun:**
Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno i'r Aelod Cabinet Sengl y newyddion diweddaraf ar gwblhau'r raglen Grant Tai Cymdeithasol am 2016/2017 ac i geisio cymeradwyaeth am y Rhaglen GTC am 2017/2020 a'r Rhestr Cynllun wrth Gefn.

Cydnabyddir yn Sir Fynwy bod prisiau tai wedi codi i lefel tu hwnt i'r hyn sy'n fforddiadwy i nifer o bobl leol. Cyfartaledd pris tai ar hyn o bryd yw £276,000 (£177,200 o'i gymharu â Chymru) a'r chwartel isaf o gymhareb pris tai i incwm yw 9:1. Y nifer o ymgeiswyr ar y Gofrestr Tai Cyffredin ar hyn o bryd yw 3048. O ganlyniad, un o flaenoriaethau'r Cyngor yw darparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd trefol yn ogystal ag ardaloedd gwledig (Ffynhonnell y data: Hometrack 23ain o Fai 2017).

**Materion Allweddol:**
**Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol 2016/2017:**

1. Y dyraniad Grant Tai Cymdeithasol am Sir Fynwy yn 2016/2017 oedd:

Prif Raglen GTC £1,144,759

Cyflwynwyd cais gan Dai a Chymunedau i Lywodraeth Cymru am lithriad diwedd flwyddyn ychwanegol ac roeddent yn llwyddiannus yn ennill:

Cyllid Ychwanegol £2,062,469

Y ffigwr terfynol a dynnwyd o Lywodraeth Cymru oedd £3,207,228.

2. Cwblhaodd Melin Homes achubiad morgais yn llwyddiannus gan ddefnyddio £98,000 o Grant Tai Cymdeithasol wedi'u Hailgylchu Sir Fynwy (RCG). Effaith hyn oedd atal teulu rhag dod yn ddigartref.

3. Perfformiad bendigedig yw hwn sy'n gweld Sir Fynwy'n gwario 100% o'i ddyraniad grant yn ogystal â £2,062,469 o gyllid ychwanegol. Yn 2016/17 cyfanswm y tai newydd oedd wedi'u cwblhau oedd 87. Mae 63 uned ychwanegol o'r Rhaglen Grant Tai Cymunedol yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.

4. Cwblhawyd y Tai Fforddiadwy canlynol:

Ysgol West End, Cil-y-coed 17
Westgate, Llan-ffwyst (S106 Safle) 13
Cae Meldon, Gilwern (S106 Safle – PCBB) 18
Celli Cae Mawr (bwthyn wedi'i addasu) 1
Mynyddbach 2
Lôn Gwyrdd, Cil-y-coed 4
Ysgol Tryleg (60/40 Safle) 9
Clinig Heol Dixton, Trefynwy (S106 safle) 4
Ysgol Rogiet 19

**Rhaglen grant Tai Cymdeithasol 2017 – 2020**

5. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau cyllid ychwanegol i helpu cyrraedd eu targed o 20,000 o dai fforddiadwy trwy gydol y tymor gweinyddiaeth hwn. Dyraniadau Sir Fynwy yw:

2017/2018 Grant Tai Cymdeithasol £3,342,894
Grant Cyllid Tai £1,810,055
Cyfanswm £5,152,949
2018/2019 Grant Tai Cymdeithasol £4,369,317
Grant Cyllid Tai £1,037,615
Cyfanswm £5,406,932

2019/2020 Grant Tai Cymdeithasol £1,250,044
Grant Cyllid Tai £716,213
Cyfanswm £1,966,257

6. Trwy weithio'n agos gyda phartneriaid RSL mae Cyngor Sir Fynwy wedi gallu adeiladu rhestr cynllun wrthgefn iachus a dylai bod mewn sefyllfa i wario'r dyraniad hwn yn llawn.

**Archwiliadau'r Aelodau:**
Cyflwynodd Rheolwr Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yr adroddiad a'r ystyriaeth ganlynol, gwnaeth yr Aelodau'r arsylwadau canlynol:

Gofynnodd Aelod a oes unrhyw ystyriaeth yn cael ei gwneud ynglŷn â fforddiadwyedd tir mewn ardaloedd gwahanol ac os oedd, oes angen mwy o gyllid mewn rhai lleoliadau nac eraill (e.e. mewn ardaloedd awdurdod lleol) o ran Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Cyllid Tai. Esboniwyd bod y grantiau sydd ar gael yn cael eu cyfrifo yn ôl Canllawiau ar Gostau Derbyniol Llywodraeth Cymru ac mae pob ardal o bob sir yn cael eu dodi ar fandiau gwahanol sy'n seiliedig ar werthoedd y farchnad; mae yna dri band yn Sir Fynwy. Cadarnhawyd bod mwy o grant ar gael mewn ardaloedd gwahanol yn ddibynnol ar ble mae adeiladu'n digwydd.

Cafodd y Swyddog ei longyfarch ar ôl sicrhau gwariant llawn ac ar ôl defnyddio unrhyw gyllid sydd heb ei ddyrannu neu wario.

Gofynnodd Aelod am y maint o bobl oedd yn aros am dai cymdeithasol, yn enwedig rhieni ifanc, ac os oedd y rhestr yn rhy hir, yn enwedig yn Y Fenni. Adroddwyd bod dros 3000 o deuluoedd ar y rhestr ac oddeutu 700 yn Y Fenni. Mynegwyd bod hi bob amser yn amhosib cwrdd â'r galw. Ychwanegwyd bod safle newydd mawr yn cael ei ddatblygu yn fuan iawn yn ardal Y Fenni.

Gwnaeth Aelod ymholiad ynglŷn â'r angen i dorri lawr coed aeddfed a gofynnodd am sicrwydd y bydd coed aeddfed yn cael eu hamnewid trwy blannu coed newydd ar ôl iddynt gael eu torri i lawr. Atebwyd bod coed sy'n cael eu torri lawr yn cael eu hamnewid yn gyffredinol ond i ardal wahanol ar adegau.

Gan ystyried y galw, ymholodd Aelod os oedd modd i Landlordiaid Cymdeithasol Preswyl (RSL) prynu eiddo di-raen i gynnig mwy o dai sydd wir eu hangen. Yr ateb oedd bod gyda phartneriaid RSL, yn enwedig Cymdeithas Tai Sir Fynwy, rhaglen er mwyn prynu eiddo yn ôl a werthwyd o dan gynllun Hawl i Brynu. Yn ogystal, os oes dal grant ar gael, mae'n cael ei ddefnyddio i brynu mwy o eiddo, yn enwedig bythynnod i'r anabl/ wedi'u haddasu.

Ymholodd Aelod, mewn perthynas â'r Cynllun Cyflwyno Rhaglen (yn benodol, safle Pont Mabey), pam cafodd y dyraniad ei ostwng i 18 tra bod galw sylweddol yng Nghas-gwent ac os oes unrhyw lain arall o dir wedi'i glustnodi ar gyfer tai cymdeithasol yn yr ardal. Mewn ymateb cadarnhawyd bod 38 uned fforddiadwy'n cael eu datblygu ar safle Osborn Paint. Ychwanegwyd bod safle Pont Mabey ddim yn ymarferol oherwydd materion sylweddol yn gysylltiedig â'i statws tir llwyd. Mae grant yn awr ar gael ac fe fydd dau barsel o dir ar gael am gost ostyngedig. Cadarnhawyd y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio i adeiladu tai fforddiadwy ac nid oes safleoedd eraill hysbys ar hyn o bryd. Cafodd gwybodaeth ychwanegol ei darparu i esbonio taw

tra bod darn o dir o dan ystyriaeth, mae yna drafodaeth ynglŷn â maint abnormalau. Lle mae abnormalau'n ormodol o fawr, tai fforddiadwy sy'n troi'n bwynt trafodaeth fel arfer i droi'r datblygiad yn fforddiadwy i ddatblygwyr sydd yn dymuno gwneud elw o 20%, a nodwyd taw'r her yw ceisio lleihau elw'r datblygwyr er mwyn cynnig tai fforddiadwy. Cyflwynwyd Heol Crug fel enghraifft lle mae'r awdurdod yn gweithio gyda'r datblygwr, Melin Homes, i leihau maint yr elw i 12% bydd yn dechrau gosod cynsail ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol.

Dwedodd Aelod y dylai'r polisi Cynllun Datblygu Lleol gael ei weithredu bob tro.
Ymholodd Aelod pam y mae datblygwyr, mewn ardaloedd wledig, yn defnyddio'r esgus o dalu oddi ar y safle i gael tai preifat, ond nid fforddiadwy, ar y safle. Cwestiynwyd pam y mae datblygwyr yn cael eu galluogi i wneud hyn tu allan i ddarpariaethau polisi'r CDLl. Atebwyd nad oedd hyn wedi digwydd gan fod polisi tai fforddiadwy o 60% mewn ardaloedd gwledig sy'n cael ei weithredu'n llwyddiannus ac yn drylwyr.

Dwedodd Aelod y mai adeiladau newydd mewn ardaloedd gwledig hyn yn ffurfio'r dyraniad gwledig gyda blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw yn yr ardal.

Dadleuodd Aelod ei fod yn ymddangos nad oedd pob datblygwr o hyd yn cyflawni'r ganran o dai fforddiadwy sy'n ofynnol ac nid oedd y polisi'n cael ei dilyn, bod arian yn cael ei dalu am dai oddi ar y safle ac felly nid yw'n helpu'r sefyllfa tai fforddiadwy.

Cadarnhawyd bod rhaid cadw at y polisi o 60% o dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig. Cadarnhawyd na chymerwyd swm cymudol ac mae'n rhaid adeiladu'r tai. Bydd swm cymudol yn cael ei gymryd am dai unigol, serch hynny. Ychwanegodd Aelod ei bod hi'n ymwybodol o ganiatâd cynllunio amlinellol yn cael ei roi mewn pentref lle nad oedd y datblygwr wedi dilyn y polisi a chytunwyd y bydd gwybodaeth bellach yn cael ei chyflwyno i'r Swyddog y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd Aelod pam oedd 18 tŷ fforddiadwy oedd wedi'u hadeiladu gyda SHG yng Nghae Meldon, Gilwern wedi'u gwerthu eisoes. Mewn ymateb esboniwyd taw perchnogaeth gartref cost isel oedd ychydig o'r tai a chawson nhw eu gwerthi i bobl ar y gofrestr tai. Esboniwyd bod trafodaethau hir wedi digwydd gyda'r Parciau Cenedlaethol (PC) ynglŷn â symiau cymudol ond mae PC wedi cadw'r arian ac nid ydynt yn ei ryddhau i'r awdurdod tai. Ychwanegwyd bod yna £176,000 yn deillio o safle Cae Meldon sy'n ddyledus. Rhaid gwario'r arian yn Sir Fynwy neu bydd yn arian yn cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill yn y Parc Cenedlaethol. Dywedwyd bod gofyn am £100,000 fel swm cymudol gyda chartrefi annedd sengl a dim ond dwy esiampl sydd lle mae'r swm hwn yn debygol o gael ei dalu.

Gofynnodd Aelod, mewn perthynas â datblygiad tai ym Maerdy, Y Fenni, am drafodaethau ynglŷn â'r gost i'r datblygwr o orfod claddu ceblau trydan sy'n cael eu cario ar hyn o bryd gan beilonau, a gofynnodd am sicrwydd na fydd effaith ar y nifer o unedau tai fforddiadwy ar y cynllun os oes unrhyw newid i'r cais cynllunio. Atebwyd taw'r gost o ddelio gyda'r ceblau yw £5 miliwn a bu effaith niweidiol ar dai fforddiadwy a oedd yn wreiddiol i fod yn 35% ond sydd nawr wedi'u lleihau i 19.8%. Roedd awydd i gadarnhau os oedd y costau gwreiddiol yn cynnwys y rhagdybiaeth y bydd y ceblau trydan dan ddaear ac nad modd yw hyn o leihau'r maint o dai fforddiadwy sy'n cael eu cynnig. Atebwyd bod y cyfanswm wedi'i gostio gan y cwmni cyfleustodau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ac maent nawr wedi'u rhagori'n aruthrol.

Awgrymodd Aelod taw mater Cynllunio yw hwn, ac ychwanegodd bod y Pwyllgor Cynllunio'n drylwyr dros ben. Cafodd gwybodaeth ei darparu ynglŷn â phan mae dadl mewn perthynas â'r canran o dai fforddiadwy mewn cynllun, ceir sicrhad bod y datblygiad yn cael ei asesu trwy becyn cymorth yr awdurdod. Mae modd i'r Prisiwr Dosbarth adolygu'r achos ac os credir nad

yw darpariaeth tai fforddiadwy mewn cynllun yn ymarferol, bydd yn cynnig cyngor annibynnol i'r Pwyllgor Cynllunio nodi.

Gofynnodd y cadeirydd beth oedd yn digwydd os nad yw'r ddarpariaeth yn cael ei defnyddio. Mewn ymateb esboniwyd bod y cyllid yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru i'w ailddosbarthu. Mae'r dull hwn yn cael ei adolygu ac fe all cyllid sydd heb ei ddefnyddio gan awdurdod gael ei fenthyg i awdurdod arall i'w ddychwelyd y flwyddyn ganlynol.

**Casgliad y Pwyllgor**

Roedd y materion allweddol a drafodwyd yn cynnwys fforddiadwyedd tir, y rhestr aros am dai cymdeithasol a fforddiadwyedd tai. Roedd y Pwyllgor wedi bodloni bod y grant llawn wedi'i sicrhau ac wedi'i wario o fewn Sir Fynwy, sydd ddim yn digwydd ym mhob awdurdod. Dymunodd y Cadeirydd bod copïau cyfredol o gyflenwadau rhagamcanedig yn cael eu danfon i Aelodau.

Nododd y Cadeirydd bod Aelodau'n hapus gyda datblygiadau hyd yn hyn a bydd yn parhau i archwilio tai fforddiadwy, gyda'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynrychioli darn allweddol am archwilio ar y cyd yn y dyfodol.

## 9. <u>Adroddiad Monitro Refeniw a Chyfalaf</u>

**Cyd-destun:**
Diben yr adroddiad hwn yw cynnig gwybodaeth i Aelodau ynglŷn â safle alldro refeniw'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod adroddi 4 sy'n cynrychioli'r safle alldro ariannol am y flwyddyn ariannol 2016/17.

**Argymelliadau sy'n cael eu Cyflwyno i'r Cabinet:**

- Bod Aelodau'n ystyried gorwariant alldro refeniw net o £884,000, gwelliant o £805,000 ar ragdybiaethau alldro chwarter 3.
- Aelodau'n ystyried gwariant alldro cyfalaf o £40.03m yn erbyn cyllideb wedi'i diwygio o £40.98miliwn, ar ôl y llithriad arfaethedig o £17.5 miliwn, gan arwain at danwariant net o £951 mil.
- Ystyried a chymeradwyo'r llithriad cyfalaf o £17.5m sydd wedi'i argymell (wedi'i fanylu yn atodiad 2), gan dalu sylw i'r cynlluniau a ddisgrifiwyd ym mharagraff 3.3.6 lle mae cais wedi'i wneud am lithriad gan y rheolwr gwasanaeth ond ni argymhellir i lithro (£198 mil).
- Ystyried defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a gynigiwyd ym mharagraff 3.4.1.
- Cefnogi apwyntiad tanwariant cyffredinol wrth ychwanegu at lefelau wrth gefn fel y disgrifiwyd ym mharagraff 3.4.3 isod h.y.:

  Cronfa Buddsoddi Blaenoriaethol £570k
  Cronfa wrth gefn Diswyddo a Phensiwn £114k
  Cronfa wrth gefn Trawsffurfiad TG £100 mil
  Cronfa wrth gefn Derbynebau Cyfalaf £100 mil
  Cyfanswm £884 mil

- Mae Aelodau'n nodi y bydd y lefel isel o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi'n lleihau'n ddifrifol yr hyblygrwydd sydd gyda'r Cyngor mewn cwrdd â heriau adnoddau prin yn y dyfodol.
- Mae Aelodau'n nodi'r lleihad sylweddol yn y balans cyflawn ar ddiwedd 2016/17 ac yn cefnogi'r gwaith parhaol gydag ysgolion i sicrhau bod anghenion cynllun Cyllid Tecach y Cyngor yn cael eu cyflawni a bod balans cyflawn ysgolion yn parhau i fod yn bositif yn 2017/18.

**Archwiliadau'r Aelodau:**
Cafodd y Pwyllgor ei atgoffa bod ceisiadau wedi'u cyflwyno i'r Cabinet am gyllid am gefnogaeth ychwanegol i dimau'r flwyddyn ddiwethaf a cwestiynwyd a oedd y cyfanswm hwn wedi'i gynnwys ac os oedd, sut cafodd ei gydbwyso yn erbyn mandadau yn y flwyddyn ariannol hon; cafodd y ffigwr ei ychwanegu i alldro blwyddyn ddiwethaf. Mewn ymateb, esboniwyd bod pwysau ar yr awdurdod o Lywodraeth Cymru e.e. mae maniffesto newydd y llywodraeth yn ceisio codi'r trothwy cyfalaf ar gyfer pobl sydd â lleoliadau preswyl hir dymor i £50,000 (a osodwyd yn flaenorol yn £24,000) dros y 3-4 mlynedd nesaf. Mae'r trothwy cyfalaf wedi'i godi'r flwyddyn ariannol hon i £30,000. Mae grant ychwanegol wedi'i dderbyn sy'n dechrau yn 2017/18 ac felly nid oes cyllid ôl-weithredol.

Gofynnodd Aelod y rheswm pam oedd mwy o bobl mewn gofal preswyl. Atebwyd bod pwysau wedi bod yn ne'r sir lle mae ychydig o bobl oedd gynt yn hunan-gyllido wedi rhedeg allan o arian ac wedi plymio o dan y trothwy (£24,000 yn 2016/17). Mae yna wedyn dyletswydd statudol i'w hystyried am gyllid. Esboniwyd bod ffurflen asesiad ariannol trylwyr i geisio adnabod os oes wedi bod unrhyw golled cyfalaf. Os oes unrhyw eiddo ategir tâl cyfreithiol i'r annedd sydd rhaid wedyn gwerthu i ariannu'u gofal.

Cwestiynwyd pellach sut fedrir cynnal gofal preswyl os yw'r duedd hon yn parhau. Esboniwyd bod darpariaeth ddigonol o fewn y sir gan gynnwys darpariaeth fewnol yn Nhŷ Preswyl Severn View yn ne'r sir a gyda darparwyr preifat. Ychwanegwyd bod defnydd gofal preswyl wedi aros yn statig er y cynnydd yn y nifer o breswylwyr oedran 85+. Nodwyd bod cynnydd yn y nifer o bobl gyda dementia hwyr a chartref gofal yw'r lleoliad mwyaf priodol dan yr amgylchiadau hyn.

Cwestiynwyd argaeledd gofal preswyl yng ngogledd y sir ac atebwyd bod digon yn yr holl sir. Mae'r awdurdod yn prynu oddeutu 10% o'r llefydd sydd ar gael ac mae'r cyflenwad yn cwrdd â'r galw. Y rhagolwg yw wrth i'r trothwy cyfalaf godi, bydd cyfran mwy o leoliadau cartref yn cael eu prynu wrth i fwy o bobl ddod yn gyfrifoldeb yr awdurdod a bydd perthynas gwahanol yn datblygu gyda'r sector cartref gofal.

Cwestiynodd Aelod os, gyda newid y trothwy cyfalaf, fydd Llywodraeth Cymru'n cynnig cymorth gan fydd y newidiadau'n dodi mwy o bwysau ar y gyllideb. Esboniwyd bod grant Llywodraeth Cymru o'r flwyddyn ariannol gyfredol 2017/18 a bod pobl sy'n plymio o dan y trothwy £30,000 yn cael eu nodi i Lywodraeth Cymru i sbarduno cyllid. Mewn ymateb i gwestiwn pellach am os fydd y grant yn cyfro'r galw, nodwyd ei fod yn bosibl i'r galw fod yn fwy na'r cyllid grant a bydd y data gweithgaredd sy'n cefnogi'r pwynt hwn yn cael ei ddarparu gan olrhain y bobl sy'n plymio o dan y cyfanswm trothwy cyfalaf a'r wir gost i'r awdurdod. Cafodd y farn ei rhoi, ar brofiad blaenorol, taw annhebyg yw hi y bydd gwir gost y galw'n cael ei chyfro.

Cyfeiriodd Aelod at y cynnydd mewn pobl ifanc ar y Sbectrwm Awtistig sydd nawr yn bwydo trwy wasanaethau oedolion a chwestiynodd os oedd darpariaeth ddigonol. Mewn ateb, esboniwyd bod cyllideb yn cael ei gosod i'r neilltu i bobl gydag anableddau dysgu sy'n cynnwys y rheini ar y Sbectrwm Awtistig. Ychwanegwyd bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn ardal Gwent am y tair blynedd nesaf i ymsefydlu Gwasanaeth Awtistig Cyfunol i bob oedran.

Mae Sir Fynwy'n cynnal y gwasanaeth am yr ardal. Awgrymwyd gall hwn fod yn bwnc am ystyriaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 10. Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol

**Cyd-destun:**
Darparu Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor Dethol Oedolion
am ystyriaeth a sylwadau. Esboniwyd bod yr adroddiad yn anffodus wedi'i adael allan o'r agenda ond cytunodd yr Aelodau y byddent yn gwrando ac yn gwneud sylwadau.

**Materion Allweddol**
1. Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yw hwn, sy'n ystyried y flwyddyn ariannol 2016/17. Bwriad yr adroddiad yw ystyried y gwelliant mewn darparu'r blaenoriaethau a nodwyd yn adroddiad blynyddol blwyddyn ddiwethaf, ystyried perfformiad am y flwyddyn ddiwethaf, a nodi'r meysydd allweddol am ddatblygiad a gwelliant yn 2016/17. Mae'n galluogi'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i brofi os yw'r asesiad o welliant a datblygiad yn gyson â'r amrywiaeth o dystiolaeth sy'n cael ei chasglu a'i chyflwyno iddynt yn ogystal â'i phrofiad uniongyrchol sy'n deillio o ymweld â safleoedd, gweithgaredd rheoleiddio ac arolygiadau thema. Mae fformat yr adroddiad wedi newid sydd nawr yn batrymlun wedi'i ddatblygu'n genedlaethol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) (2014). Rhaid i bob cyfarwyddwr yng Nghymru adroddi am berfformiad a risg a nodi cynlluniau am welliant mewn perthynas â:

- Crynodeb perfformiad;
- Sut mae pobl yn siapio ein gwasanaethau;
- Hyrwyddo a gwella lles y rheini rydym yn helpu;
- Gweithio gyda phobl a phartneriaid i amddiffyn a hyrwyddo iechyd meddyliol a chorfforol a lles emosiynol pobl.
- Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu ac i gymryd rhan yn y gymdeithas;
- Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal iechyd a pherthnasau domestig, teuluol a phersonol yn ddiogel;
- Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed;
- Sut ydyn ni'n cyflawni'r hyn yr ydym yn ei wneud;
- Ein gweithred partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethiad ac atebolrwydd;
- Ein blaenoriaethau am welliant.

2. Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnig cyfle i ystyried yr hyn yr ydym yn ei wneud i wneud gwahaniaeth i fywydau dinasyddion mwyaf bregus Sir Fynwy, beth ydyn ni'n gwneud yn dda, a pha feysydd sydd angen i ni wneud hyd yn oed yn well. Mae'r adroddiad yn esbonio'r cyd-destun yr ydym yn gweithio o fewn a sut fyddwn ni'n parhau i wella a moderneiddio. Mae'n tanlinellu ymarfer, datblygiad gweithlu, darpariaeth gwasanaeth a chomisiynu rhagorol, blaenllaw. Un esiampl yw ailfodelu gofal yn y cartref trwy weithredu Gofal yn y Cartref Sir Fynwy. Mae'n dangos datblygiad o'r amcanion gwella a osodwyd y flwyddyn ddiwethaf - mae'r

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 20fed Mehefin, 2017 at 10.00 am**

Rhaglen Gwella Gwasanaeth Plant ar y trywydd iawn i gynnig rhagoriaeth mewn gwasanaethau plant o fewn amserlen 3 mlynedd y rhaglen. Mae gwelliant penodol wedi bod mewn sut ydynt yn rheoli contractau gyda ac yn cyfeirio at y gwasanaeth, a sut ydynt yn sefydlogi a chefnogi ein gweithlu.
3. Tanlinellir risg a her mewn rhai meysydd hefyd. Nid yw pobl yn Sir Fynwy sydd angel gofal a chymorth yn y gymuned bob tro'n eu derbyn o'r gwasanaethau cywir mor gynted ag sydd angen, gydag ychydig oedi'n digwydd mewn sefyllfaoedd ysbyty ond hyd yn oed mwy yn y gymuned. Blaenoriaeth fwyaf gwasanaethau oedolion yw sicrhau ansawdd digonol wrth weithio gyda'r sector gofal i weithredu'r modelau cywir o gymorth a chefnogaeth, ac i weithredu cynllun datblygu gweithlu am y gweithlu gofal. Mae'r adroddiad yn tanlinellu'r risgiau parhaol a meysydd am ddatblygiad mewn gwasanaethau cymdeithasol plant, sy'n amlwg gyda'r nifer uchel o blant ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae yna angen mwy i integreiddio rhwystrau wedi'u targedu'n well ac ymyrraeth gynnar trwy'r tîm o gwmpas y teulu a gwasanaethau cymdeithasol plant ac i recriwtio mwy o ofalwyr maeth lleol i blant Sir Fynwy.
4. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn mynegi gweledigaeth a blaenoriaethau cysylltiedig sy'n ymwneud â lles, gofal cymdeithasol ac iechyd yn Sir Fynwy sy'n ceisio adeiladu ar yr amryw gryfderau sy'n bodoli gyda'r nod o gynnig canlyniadau rhagorol cyson ymhobman. Mae hyn o fewn cyd-destun fframwaith deddfwriaeth newydd Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) (2014), heriau cynyddol demograffeg gall cynyddu'r galw am wasanaethau cymdeithasol yn sylweddol, yr her o sicrhau gweithlu a chynnig gwasanaethau mewn sir wledig a chyllidebau sy'n lleihau. Mae cynnwys yr adroddiad gymaint i wneud â lles na gofal a chymorth; mae cymaint o lwyddiant gofal cymdeithasol yn ddibynnol ar bobl, teuluoedd a chymunedau gwydn sy'n byw'r bywydau maen nhw eisiau byw heb angen gofal a chymorth gwasanaethau cymdeithasol statudol.

**Archwiliadau'r Aelodau**
Cefnogodd Aelod brand "helping hand" yn lle label Gwasanaethau Cymdeithasol fel modd o oresgyn rhwystrau i fynd i'r afael ag unigrwydd, gofal a chymorth.

Argymhellodd Aelod gwefan Age Cymru sy'n cynnig rhestr gwasanaethau cynhwysfawr i unigolion. Dwedwyd taw blaenoriaeth yw tanlinellu'r amryw wasanaethau sydd ar gael. Er enghraifft, mae DEWIS yn adnodd lles defnyddiol.

Gwnaethpwyd y pwynt bod diffyg rhyngrwyd a sgiliau cyfrifiadur ac anallu i ymweld â'r Hybiau'n broblem sylweddol yn ôl cyfathrebu a darparu gwasanaethau. Awgrymwyd efallai bod taflenni mewn llyfrgelloedd a neuaddau pentref yn fwy buddiol ond derbyniwyd hefyd bod angen chwilio am ffyrdd eraill o gysylltu â phobl fregus ac unig. Awgrymodd Aelod y rôl unigryw sydd gydag Aelodau sydd wedi cael eu Hethol yn y ward a sut gallan nhw gyfathrebu gyda phreswylwyr trwy gylchlythyrau ayyb.

Ychwanegodd Aelod bod rhwystrau eraill sy'n cynnwys teuluoedd prysur, pobl sy'n cael hi'n anodd cadw'u hannibyniaeth ac amharodrwydd i ofyn am gymorth sy'n gallu golygu bod pobl yn "cwympo trwy'r rhwyd". Mewn ymateb, adnabuwyd nad oedd un modd yn mynd i gwrdd ag anghenion cymunedau i gyd ac nid yw atebion digidol yn briodol bob amser. Bwriad defnydd cysylltwyr cymunedol a chyfeillion, er enghraifft, yw gwrthsefyll datgysylltu. Cytunodd y Prif Swyddog bod hi'n bwysig ystyried yr elfennau hyn ym mlaenoriaethau'r flwyddyn nesaf.

Gofynnodd Aelod a oedd modd diwygio'r adroddiad er mwyn cynnwys cysylltiad i'r henoed am y fath o gymorth sydd ar gael mewn fformat priodol.

Gofynnodd Aelod a oedd yr awdurdod wedi archwilio cynnig y drydydd sector er mwyn darparu rhestr o ba wasanaethau sydd ar gael. Atebwyd bod rhan o wybodaeth grwpiau gwirfoddol a

chymunedol yn hysbys ond nid popeth. Ychwanegwyd bod Tîm Datblygiad Cymunedol yn cael ei sefydlu a rôl allweddol bydd archwilio adnoddau mewn ardal.

Mewn ymateb i gwestiwn Aelod ynglŷn â chreu tîm a sut buasai canlyniadau'n cael eu mesuro, esboniwyd bod yr awdurdod yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe i sicrhau bod y mesurau cywir yn cael eu defnyddio a bydd adroddiad blynyddol yn cael ei wneud. Gwnaethpwyd y sylwad y bydd hi'n bwysig bod Aelodau'n ymwybodol o bwy yw'r Swyddog Datblygiad Cymunedol yn eu ward. Pwysleisiodd Aelod bod hyn yn hollbwysig i lwyddiant y gwasanaeth.

**11. <u>Polisi Diogelu Corfforaethol</u>**

**Cyd-destun:**
Rhoi gwybod i Aelodau o gyflwyniad y Polisi Diogelu Corfforaethol newydd.

**Argymhellion:**
Argymhellir bod Aelodau'n cytuno ac yn mabwysiadu'r Polisi Diogelu Corfforaethol.

**Materion Allweddol**
Blaenoriaeth uchaf y Cyngor yw diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl.

- Mae diogelu, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, yn cael ei adnabod fel cyfrifoldeb pawb ac mae datblygiad sylweddol wedi digwydd dros y 5 mlynedd ddiwethaf i ymgorffori diwylliant, adnabyddiaeth ac ymarferiad diogelu'n systematig.
- Mae pob aelod o'r staff, ar gyflog neu beidio, a Chynghorwyr yn rhannu cyfrifoldeb yn gorfforaethol ac yn unigol i sicrhau bod plant ac oedolion mewn peryg yn cael eu trin gyda pharch ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.
- Mae gyda'r Cyngor polisi diogelu sy'n bodoli eisoes ond mae wedi'i ffocysu'n drwm tuag at sefyllfaoedd addysg a gwasanaethau plant a theulu eraill.

O ganlyniad mae diogelu wedi'i fewnblannu i rai Cyfarwyddiaethau a meysydd gwasanaeth; serch hynny mae yna lefelau amrywiol o ddealltwriaeth o ran disgwyliadau mewn rhannau eraill o'r sefydliad.

- Bydd y polisi hwn yn fecanwaith er mwyn gwerthuso dealltwriaeth, systemau a hyfforddiant ledled y Cyngor ac mae'n sicrhau bod diogelu wedi'i ddodi yng nghraidd busnes y Cyngor.

**Archwiliadau'r Aelodau:**

Dwedodd Aelod taw adroddiad cynhwysfawr dros ben oedd hwn gyda dyheadau uchel a chwestiynodd aelodaeth Grŵp Cydweithredu Diogelu'r Holl Awdurdod. Cadarnhawyd bod y grŵp yn cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Prif Swyddogion neu Benaethiaid Gwasanaeth o bob cyfarwyddiaeth a chynrychiolwyr o'r Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd. Esboniwyd taw diben y grŵp yw cynnig dull cynhwysfawr a llywodraethu effeithiol. Cadarnhawyd nad yw aelodau'n cymryd rhan yn y Grŵp ar hyn o bryd ond gallir ystyried hyn. Cwestiynodd y Prif Swyddog a oedd archwiliad trwy Bwyllgorau Dethol yn cynnig digon o sicrwydd yn ogystal ag adroddiadau i'r Cabinet a Chyngor neu os oedd teimlad bod rhaid i aelodau cymryd rhan yn y Grŵp sydd â rôl fwy gweithredol.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 20fed Mehefin, 2017 at 10.00 am**

Cytunodd Aelod y dylai cynghorwyr i gyd cael eu hyfforddi i Lefel 1 Diogelu, ymholodd pa mor gyflym byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu a gofynnodd sut i sicrhau bod pob aelod yn cwblhau'r hyfforddiant. Cadarnhawyd bod sesiwn ar y 10fed o Orffennaf a bydd y rheini sydd ddim yn mynychu'n cael eu nodi i fynychu sesiwn arall.

Gofynnodd Aelod sut fydd yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn monitro effeithlonrwydd archwiliadau ac esboniwyd y bydd cynrychiolwyr yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Dethol, i gyflwyno adroddiadau'u hun ond hefyd i arsylwi ac i fonitro eitemau eraill o fusnes. Atgoffwyd aelodau y dylai adroddiadau pwyllgor i gyd gynnwys adran i adnabod ac i fynd i'r afael â "Goblygiadau Diogelu". Bydd cynnwys ac ansawdd y datganiadau hyn yn cael eu samplo ledled pob pwyllgor gan yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd er mwyn gwerthuso trefniadau diogelu.

Cwestiynwyd lefel ac argaeledd hyfforddiant i wirfoddolwyr. Atebwyd bod cymorth a hyfforddiant i wirfoddolwyr yn cael eu cynnig mewn fformat cymesur a chyfleus. Esboniwyd bod Polisi Gwirfoddoli'n cael ei baratoi bydd yn graddio lefel yr hyfforddiant â rôl y gwirfoddolwr.

## 12. Rhestr Weithredu

**Gwasanaethau Strôc:** Cytunwyd i ystyried cynnwys gwerthusiad pellach o Wasanaethau Strôc yn y cynllun gwaith ymlaen llaw. Awgrymwyd y dylai'r cynllun gwaith ymlaen llaw gael ei ystyried mewn mwy o fanylder yn y cyfarfod nesaf.

**Gwasanaeth Ambiwlans:** Rhoddwyd diweddariad bod yna diffibriliwr yn nerbynfa Neuadd y Sir Brynbuga.

**Carchar Brynbuga:** Awgrymwyd bod y deialog gyda Charchar Brynbuga'n parhau. Awgrymwyd ailymweld â'r testun hwn mewn 18 mis i ystyried datblygiad yn ôl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

**Cyngor Iechyd Cymunedol:** Cytunwyd cynnal cyfraniad o'r Cyngor Iechyd Cymunedol gan gyflwyno gwahoddiad pan mae'r gwerthusiad nesaf gyda'r Bwrdd Iechyd yn digwydd.

**Cefnogi Pobl:** Cytunwyd i ychwanegu'r eitem hon i'r rhaglen waith.

## 13. Blaen-raglen Waith y Pwyllgor Dethol Oedolion

Bydd Blaen-raglen Waith y Pwyllgor Ethol Oedolion yn cael ei thrafod yn y cyfarfod nesaf lle fydd cyd-opsiwn aelodau'n cael ei ystyried i sicrhau cynrychiolaeth ledled y sir. Mewn paratoad, cafodd Aelodau'u gwahodd i ystyried cynrychiolaeth o sefydliadau posib neu

unigolion addas am gyd-opsiwn gan nodi gall tystion am destunau penodol cael eu gwahodd i gyfarfodydd er mwyn cyfoethogi'r drafodaeth.

## 14. Rhaglen Waith y Cabinet a'r Cyngor

Esboniwyd y cafodd Swyddogion eu gofyn i boblogi'r rhaglen waith gyda'r strategaethau a phenderfyniadau i gyd am y chwe mis nesaf o leiaf am gyhoeddiad a hefyd i helpu cynllunio gwerthusiad cyn-benderfyniad.

Cafodd sylw Aelodau'i ddeni i faterion i ymwneud â phenderfyniadau aelodau unigol.

Esboniodd y Cadeirydd am y cynllunydd sy'n cael ei adnewyddu ar ddydd Gwener ac anogodd aelodau i fod yn ymwybodol o newidiadau.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw le i ofyn am adroddiadau am bynciau penodol ac esboniwyd taw mater i'r pwyllgor penderfynu oedd hwn gan ychwanegu y bydd Rheolwr Polisi a Pherfformiad yn mynychu'r cyfarfod nesaf i helpu adnabod a blaenoriaethu meysydd am werthusiad, ac i drefnu llwyth gwaith y Pwyllgor Dethol Oedolion. Gofynnwyd i Aelodau meddwl am bynciau am werthusiad posib e.e. Iechyd Meddwl.

## 15. I drafod amserau cyfarfodydd

Cafodd dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf ei gadarnhau fel Dydd Mawrth 25ain o Orffennaf 2017 am 10.00yb. Cytunwyd y bydd cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal ar ddyddiau Mawrth am 10.00yb.

## 16. I gadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf fel ar y 25ain Gorffennaf 2017 am 10.00am

**The meeting ended at 11.50 am**